**Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon o'r enw 'Recriwtio Meddygol'**

---

Diolch yn fawr i'r Pwyllgor am ei waith gwerthfawr ym maes pwysig recriwtio meddygol. Mae gwaith y Pwyllgor o ystyried y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd iddo wedi arwain at adroddiad ac argymhellion defnyddiol.

Nid yw heriau recriwtio a chadw yn y gweithlu meddygol yn rhai unigryw i Gymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhagor i'w wneud, a dyna pam yr ydym yn cymryd camau cadarnhaol i ddenu mwy o weithwyr iechyd proffesiynol ledled y wlad ac yn buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant, sef yr allwedd i ddatblygu ein gweithlu.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

**Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon gytuno ar gynllun gweithredu clir ac amserlen ar gyfer sefydlu'r corff sengl newydd [Addysg Iechyd Cymru], a'u cyhoeddi erbyn mis Medi 2017.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu'r corff sengl newydd, a fydd yn cael ei alw'n Addysg a Gwella Iechyd Cymru, erbyn mis Ebrill 2018. Nodais sut y byddai'r gwaith yn mynd rhagddo mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 6 Gorffennaf, ac i ddilyn hynny byddaf yn cyflwyno cynllun gweithredu clir ac amserlen ym mis Medi.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol yn sgil yr argymhelliad hwn, er y bydd angen cyllid trosiannol ar y rhaglen ehangach i sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae hynny wedi'i ystyried fel rhan o'r cynllunio ariannol yn ystod y flwyddyn.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Ddeoniaeth (neu unrhyw gorff sy'n ei holynu) a'r ysgolion meddygaeth yng Nghymru i sicrhau cynnydd cyson yn nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n gwneud cais am le yn yr ysgolion meddygaeth yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Mae nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n cael eu derbyn i ysgolion meddygaeth yng Nghymru wedi cynyddu oherwydd newidiadau a wnaed gan Ysgolion Meddygaeth Abertawe a Chaerdydd. Yn y pen draw, mater i'r ysgolion meddygaeth yw meini prawf derbyn. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion meddygaeth ar gynyddu nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n gwneud cais am le yn ysgolion meddygaeth Cymru. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion meddygaeth i gynnal y gwelliannau a wnaed yn 2017 ac i'w datblygu.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Ddeoniaeth (neu unrhyw gorff sy'n ei holynu) ac ysgolion meddygaeth yng Nghymru i ddatblygu rhaglen o gymorth a chyngor ar gyfer disgyblion yng Nghymru, ar drefniadau derbyn a chyfweld ysgolion meddygaeth.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Yn y pen draw, mater i’r ysgolion meddygaeth yw meini prawf derbyn. Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion meddygaeth yn y cyswllt hwn. Rydym yn datblygu rhaglen ehangu mynediad ar draws y proffesiynau gofal iechyd, gan gynnwys maes meddygaeth. Bu Ysgolion Meddygaeth Caerdydd ac Abertawe yn rhedeg cynllun profiad gwaith llwyddiannus yn ystod haf 2016 i ddisgyblion ysgol sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa feddygol. Rydym yn adeiladu ar y dull gweithredu hwn gyda’r nod o gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yr haf hwn.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 4**
Mae’r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Ysgrifennydd y Cabinet drafod a chytuno ar gynlluniau gyda’r ysgolion meddygaeth a chlinigol yng Nghymru er mwyn gwella a datblygu hyfforddiant meddygol i israddedigion yng Nghymru. Dylai’r cynllun hwn gynnwys cynnydd yn nifer y lleoedd i israddedigion mewn ysgolion meddygaeth, a chynnydd yng nghanran y lleoedd hynny a sicrheir gan fyfyrwyr sy’n hanu o Gymru.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Ar 18 Gorffennaf, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig lle’r oeddwn yn cydnabod yr achos o blaid cael mwy o addysg feddygol yn y Gogledd. Mae angen gosod hyn yng nghyd-destun dull Cymru gyfan o ymdrin ag addysg feddygol, a byddaf yn gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i gytuno ar ffordd ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ac i weithredu dull cydweithredol o fwrw ymlaen, a fydd wedi’i seilio ar Brifysgolion Caerdydd, Abertawe, a Bangor yn cydweithio’n agosach i gyflawni’r cynnydd hwn mewn cyfleoedd ym maes addysg feddygol yn y Gogledd.

Mae pawb sydd â rhan wedi cadarnhau eu bod yn barod i gydweithio i ddarparu rhaglenni a fyddai’n arwain at fyfyrwyr yn cael dewis treulio cyfnod lawer hwy o’u hastudiaethau yn y Gogledd.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol i’r gwaith cydweithredol hwn, ond bydd unrhyw gynnydd mewn lleoedd i gynorthwyo’r gwaith yn creu costau i gyllidebau addysg ac iechyd; bydd angen ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau ar bolisïau.

**Argymhelliad 5**
Mae’r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun eglur i ddatblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant meddygol i israddedigion yng ngogledd Cymru. Dylai hyn gynnwys canolfan newydd ar gyfer addysg feddygol ym Mangor. Dylai

Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi penderfyniad o fewn y terfynau amser y mae wedi'u gosod, sef haf 2017.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Ar 18 Gorffennaf, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau safbwynt y Llywodraeth nad oes achos o blaid sefydlu ysgol feddygaeth newydd yn y Gogledd. Aeth y datganiad yn ei flaen i gydnabod yr achos o blaid cael mwy o addysg feddygol yn y Gogledd. Mae angen gosod hyn yng nghyd-destun dull Cymru gyfan o ymdrin ag addysg feddygol. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ac i weithredu dull cydweithredol o fwrw ymlaen, a fydd wedi'i seilio ar Brifysgolion Caerdydd, Abertawe, a Bangor yn cydweithio'n agosach i ddarparu mwy o gyfleoedd ym maes addysg feddygol yn y Gogledd.

Mae pawb sydd â rhan wedi cadarnhau eu bod yn barod i gydweithio i ddarparu rhaglenni a fyddai'n arwain at fyfyrwyr yn cael dewis treulio cyfnod lawer hwy o'u hastudiaethau yn y Gogledd. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad yn nhymor yr hydref.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol i'r gwaith cydweithredol hwn, ond bydd unrhyw gynnydd mewn lleoedd i gynorthwyo'r gwaith yn creu costau i gyllidebau addysg ac iechyd; bydd angen ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau ar bolisïau.

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Ddeoniaeth (neu unrhyw gorff sy'n ei holynu) ac ysgolion meddygaeth i ddatblygu cynigion i gynyddu'r amser a dreulir mewn ymarfer cyffredinol, fel rhan allweddol o'r cwricwlwm israddedig a hyfforddiant sylfaen meddygon dan hyfforddiant.

**Ymateb: Derbyn**

Mae ysgolion meddygaeth Caerdydd ac Abertawe yn gweithio eisoes i ehangu lefel y cysylltiad â meddygaeth gyffredinol / gymunedol yn eu rhaglenni gradd meddygol. Rydym yn gweithio gyda'r ysgolion meddygaeth i ganfod sut y gellir ehangu'r cyfleoedd hyn yn y blynyddoedd nesaf.

Ochr yn ochr â hynny, rydym yn gweithio gyda Deoniaeth Cymru i ystyried sut y gall hyfforddeion yn eu blynyddoedd sylfaen gael mwy o gysylltiad â gofal nad yw wedi'i leoli yn yr ysbyty. Bydd angen i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud o ystyried canlyniad argymhellion grwpiau *Shape of Training* ledled y DU ynglŷn â newidiadau i hyfforddiant meddygol i raddedigion.

**Goblygiadau ariannol** – Byddai unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglen presennol trwy ailflaenoriaethu ffrydiau ariannu presennol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

**Argymhelliad 7**
Mae’r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru a’r Ddeoniaeth (neu unrhyw gorff sy’n ei holynu) ddatblygu a chytuno ar gynigion ar gyfer cynyddu nifer y lleoedd hyfforddi, wedi’u targedu at feysydd lle y ceir pwysau penodol. Ochr yn ochr â hyn, dylid dirprwyo rhagor o bwerau ar gyfer defnyddio’r lleoedd hyfforddiant hyn mewn modd hyblyg, yn enwedig hyfforddiant meddygon teulu.

**Ymateb : Derbyn**

Y llynedd, bu inni gytuno y dylem anelu at sicrhau mwy o gysondeb rhwng yr amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau ar leoedd hyfforddi meddygol a deintyddol a lleoedd hyfforddi anfeddygol. Mae cynnydd wedi’i wneud yn hyn o beth, ac ar 18 Gorffennaf bu Cyd-fwrdd Gweithredol y GIG yn ystyried cynigion ynglŷn â chomisiynu meddygol a deintyddol a Chomisiynu Anfeddygol. Nododd y papurau hyn feysydd y dylid blaenoriaethu buddsoddiadau ynddynt ar sail gwaith o ymgysylltu â sefydliadau’r GIG. Bydd y broses yn cael ei mireinio’n barhaus wrth i Addysg a Gwella Iechyd Cymru ysgwyddo’r cyfrifoldeb am y gweithgaredd hwn yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol** – Bydd unrhyw gynnydd o ran y meysydd a flaenoriaethir, yn niffyg gostyngiadau mewn meysydd eraill, yn cynyddu’r gofynion ariannu cyffredinol. Bydd angen ystyried hyn, ynghyd â’r dulliau ariannu, pan fo penderfyniadau’n cael eu gwneud ar bolisïau.

**Argymhelliad 8**
Mae’r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru:

- geisio gwneud diwygiadau priodol i reoliadau er mwyn galluogi meddygon sydd wedi cwblhau ail flwyddyn eu Hyfforddiant Sylfaen i weithio fel locwm mewn ymarfer cyffredinol;
- parhau i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â rheoleiddio rhestrau cyflawnwyr â’r nod o alluogi meddygon i fod ar y rhestr cyflawnwyr yng Nghymru a Lloegr.

**Ymateb : Derbyn yn rhannol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch rhestr gyflawnwyr i Gymru a Lloegr. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori â Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru); Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru; Deoniaeth Cymru; Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru; GIG Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ynglŷn â’r graddau y gellir gwella gofynion presennol rhestr gyflawnwyr Cymru er mwyn iddi fod yn haws i ymarferwyr cyffredinol sy’n byw yn Lloegr weithio yng Nghymru.

O ran meddygon sydd wedi cwblhau ail flwyddyn eu Hyfforddiant Sylfaen, byddwn yn parhau i weithio gyda Deoniaeth Cymru ac eraill i ymchwilio i’r mater hwn ymhellach.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes dim goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ysgolion meddygaeth yng Nghymru, Byrddau Iechyd Lleol a Deoniaeth Cymru (neu unrhyw gorff sy'n ei holynu) i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer hyfforddiant ac addysg feddygol mewn ardaloedd gwledig, gan fanteisio ar brofiad ac arfer gorau o fannau eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**Ymateb : Derbyn**

Bu'r mater hwn yn destun sawl trafodaeth â Deoniaeth Cymru, ac rydym wrthi'n ystyried manylion cynnig ffurfiol i ddatblygu a darparu Cymhwyster [*Credential*] Iechyd mewn Ardaloedd Gwledig/Rhaglenni Dysgu ynghylch Iechyd mewn Ardaloedd Gwledig yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r trafodaethau hyn ynglŷn â chymwysterau yng Nghymru.

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Rhaid i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar gynlluniau cadarn ar gyfer y gweithlu yn y tymor hir trwy gomisiynu gwaith sy'n cynnwys y rhanddeiliaid allweddol yn GIG Cymru, ysgolion meddygaeth Cymru, myfyrwyr ar gyrsiau meddygaeth a hyfforddeion meddygol i ddatblygu sail dystiolaeth gynhwysfawr ar draws Cymru gyfan o ran recriwtio a chadw staff. Gellid ei defnyddio i lywio strategaethau ac ymgyrchoedd recriwtio.

**Ymateb : Derbyn**

Y llynedd, bu inni gytuno y dylem anelu at sicrhau mwy o gysondeb rhwng yr amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau ar leoedd hyfforddi meddygol a deintyddol a lleoedd hyfforddi anfeddygol. Mae cynnydd wedi'i wneud yn hyn o beth, ac ar 18 Gorffennaf bu Cyd-fwrdd Gweithredol y GIG yn ystyried cynigion ynglŷn â chomisiynu meddygol a deintyddol a Chomisiynu Anfeddygol. Nododd y papurau hyn feysydd y dylid blaenoriaethu buddsoddiadau ynddynt ar sail gwaith o ymgysylltu â sefydliadau'r GIG. Bydd y broses yn cael ei mireinio'n barhaus wrth i Addysg a Gwella Iechyd Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y gweithgaredd hwn yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol** – Bydd unrhyw gynnydd o ran y meysydd a flaenoriaethir, yn niffyg gostyngiadau mewn meysydd eraill, yn cynyddu'r gofynion ariannu cyffredinol. Bydd angen ystyried y dulliau ariannu pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud ar bolisïau.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cynhelir gwerthusiad o gwmpas, cyrhaeddiad ac effaith yr ymgyrch Hyfforddi, Gweithio, Byw, gan ganolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd a gwersi at y dyfodol. Dylai'r gwersi hyn lywio ymgyrch flynyddol, barhaus i recriwtio meddygon.

**Ymateb : Derbyn**

Bydd gwerthusiad ffurfiol o gyfnod meddygol/ymarfer cyffredinol ymgyrch Hyfforddi, Gweithio, Byw yn cael ei gynnal gan swyddogion ym mis Ebrill 2018.

Ymgyrch farchnata barhaus a hirdymor yw hon sydd wedi'i hanelu at gynyddu nifer y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru, a bydd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf, pan fydd cwmpas a gweithgareddau'r ymgyrch yn cael eu hadnewyddu ar sail gwersi a ddysgwyd yn sgil cyfnodau/blynyddoedd blaenorol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2017 (ac yn flynyddol wedi hynny) am effaith y cynllun cymhelliant i feddygon teulu, ac archwilio ac ymgymryd â gwaith i ganfod opsiynau posibl ar gyfer cynlluniau cymhelliant ariannol neu rai eraill tebyg i ddegan nu a chadw darpar feddygon a rhai sy'n ymarfer.

**Ymateb : Derbyn**

Bydd trefniadau ynglŷn â chyflwyno gwybodaeth yn cael eu creu ar sail yr hyn y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdano. Bydd gwerthusiad o'r cynllun cymhellion yn cael ei gynnal dros yr haf er mwyn llywio penderfyniadau polisi pellach.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 13**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu opsiynau ar gyfer sicrhau y darperir un man cenedlaethol ar gyfer rhoi manylion swyddi gwag cyfredol yng Nghymru.

**Ymateb : Derbyn**
Caiff swyddi meddygol a deintyddol ym maes gofal eilaidd eu cyhoeddi ar wefan NHS Jobs ar hyn o bryd, sef y pwynt mynediad cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Pharteriaeth Cydwasanethau'r

GIG i ddatblygu dull tebyg ar gyfer swyddi yn y maes gofal sylfaenol. Mae trafodaethau ar y gweill i annog y defnydd o NHS Jobs fel yr unig bwynt mynediad ar gyfer swyddi gwag mewn practisau Meddygon Teulu.

**Goblygiadau ariannol** - Dim

**Argymhelliad 14**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru ddwyn ynghyd a chyhoeddi nifer y swyddi gwag meddygol yng Nghymru er mwyn llywio strategaeth gadarn i gynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor.

**Ymateb : Derbyn**

**Ymateb**
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu a GIG Cymru i ddatblygu dull o ddwyn ynghyd a chyhoeddi swyddi gwag meddygol a deintyddol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 15**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnal deialog â Llywodraeth y DU i bwysleisio pa mor bwysig yw gwneud y sefyllfa'n eglur yn gyflym ynglŷn â gallu dinasyddion yr UE i barhau ac i ddechrau gweithio yn y DU.

**Ymateb : Derbyn**

**Argymhelliad 16**
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:
Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnal deialog â Llywodraeth y DU i geisio sicrwydd ynghylch gallu dinasyddion yr UE i weithio fel gweithwyr meddygol proffesiynol yng Nghymru yn y dyfodol.

**Ymateb : Derbyn**

**Ymateb i A15 ac A16**
Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Mewnfudo i nodi sut y bydd y broses ar gyfer dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir sy'n mewnfudo i'r DU yn cael ei rheoli yn y dyfodol.

Mae amddiffyn hawliau dinasyddion gwledydd yr UE a thu hwnt i hynny sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd yn fater hollbwysig. Maent yn gwneud cyfraniad enfawr a gwerthfawr i'n heconomi, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau – ni ddylai pobl gael eu defnyddio i fargeinio.

Wedi Brexit, mae Llywodraeth Cymru yn glir ein bod yn awyddus i alluogi pobl o'r UE a gweddill y byd i ddod i Gymru i hyfforddi a gweithio yn ein Gwasanaeth Iechyd ac i fyw yn ein cymunedau. Rydym yn croesawu eu cyfraniad, nid yn unig i iechyd ein gwlad, ond hefyd i nerth a bywiogrwydd ein cymunedau lleol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Vaughan Gething AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**